Cofnodion o'r cyfarfod 8fed o Fawrth 2016 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania Y Felinheli.		
YN BRESENNOL		
Daniel Williams	Nerys John	
Lena Ashley	George Smith	
Iestyn Harris	Sarah Riley	
Aled Emyr		
Peter Simpson		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
1.1	Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod mis Mawrth. **Ymddiheuriadau**: Casi Jones, Yasmin Khan and Mair Bebb Jones	
2.0	**ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR**	
	Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gweler atodiad 1.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**COFNODION**	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion dyddiedig 9 Chwefror 2016. Nodwyd nad oedd y Cynghorydd Iestyn Harris yn y cyfarfod a dylai'r cofnodion ddangos hyn; yna derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir a'u harwyddo.	
5.0	**MATERION YN CODI**	
5.1	**Toiledau** - Dywedodd y Cadeirydd bod sylwadau wedi eu gwneud ar gynlluniau dechreuol y toiledau mewn perthynas â defnyddio rhan o wal y môr fel rhan o'r datblygiad. Mae'r mater bellach yn derbyn sylw oddi wrth Gyngor Gwynedd a'r bragdy.	
5.2	**Cysgodfan Bws -** mae cysylltiad wedi ei wneud a'r contractwr i archebu'r panel policarbon ar gyfer cysgodfan fws ger yr eglwys. Y clerc i sicrhau bod y gwaith yn mynd yn ei flaen. Daeth gwybodaeth i law nad oes angen cais cynllunio ar gyfer cysgodfan fws yn Aberpwll.	**CLERC**
5.3	**Hysbysfwrdd -** dim gwybodaeth bellach wedi dod i law. Mesuriadau'r hysbysfwrdd wedi eu derbyn.	**CLERC**
5.4	**TESCO** - rhoddodd y Cynghorydd Nerys John y wybodaeth diweddarach ynglŷn â'r fenter a bod cyfnod pleidleisio nawr yn agored.	
5.5	**Cwlfer - Gwylan Uchaf -** dywedodd y Clerc bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer difrod y llifogydd. Mae angen defnyddio'r cyllid cyn diwedd y flwyddyn ariannol i drwsio'r cwlfer. Maent wedi dod o hyd i'r broblem a byddant yn cwblhau'r gwaith trwsio cyn mis Ebrill.	

5.6	**Cais Cynllunio - Plot 2 old Hen Fodurdy.** Rhoddodd y Clerc eglurhad bod caniatâd cynllunio wedi ei roi a bod yr asiant wedi derbyn gwybodaeth bod angen caniatâd cyn gall cerbydau ddefnyddio'r lon las i gael mynediad i'r modurdy.	
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**	
6.1	Derbyniwyd anfoneb Owen & Palmer a chytunwyd i'w dalu.	
6.2	Cafwyd gwybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gwaith sydd i'w gwblhau ar y drws tân.	
6.3	Cafwyd gwybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r cais yswiriant ar gyfer y to.	
6.4	Mae angen ail osod y llinellau ar gyfer y cwrt badminton. Mae'r tap ar gael a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn fuan.	
6.5	Mae'r adroddiad ynglŷn â'r tamp yn y Neuadd wedi ei dderbyn a bydd yn derbyn sylw aelodau o'r is-bwyllgor a byddant hwy wedyn yn adrodd yn ôl i'r Cyngor yn y cyfarfod nesaf.	**DW, IH**
7.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL**	
7.1	Cadarnhawyd gwariant mis Chwefror.	
7.2	Derbyniwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth y Goriad ac fe'i hystyriwyd. Penderfynwyd cyflwyno £200 iddynt.	
7.3	Cytunwyd I dalu £15 y noson am ddefnyddio'r capel ar gyfer cyfarfodydd y cyngor am y tro. (mae 4 cyfarfod wedi bod hyd yma)	
7.4	Cytunwyd byddai arian Lightsource yn cael ei glustnodi ar y datblygiadau dyfodol y pentref.	
8.0	**GOHEBIAETH**	
8.1	**Cofrestr newidiadau a ffocws i'r cynllun adnau -** gwybodaeth yn unig.	
8.2	Swyddfa treth Porthmadog HMRC - derbyniwyd llythyr oddi wrth Gynghorydd Sir Porthmadog ynglŷn â'r bygythiad o gau'r Swyddfa dreth ym Mhorthmadog. Trafodwyd y mater a phenderfynwyd anfon llythyr i gefnogi ymgyrch cadw'r swyddfa ar agor. Y Clerc I anfon llythyr.	**CLERC**
8.3	Hyfforddiant - gwybodaeth ynglŷn â chyrsiau.	
8.4	Llythyr o ddiolch oddi wrth Ŵyl y Felin.	
8.5	Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol - gwybodaeth	
8.6	Arolwg ffiniau - gwybodaeth	
8.7	Rhannu pwrpas - rhannu dyfodol - gwybodaeth	
8.8	Fframwaith Moesegol - gwybodaeth	
8.9	Biniau halen - penderfynwyd byddai'r Cyngor yn trafod y mater hwn ym mis medi cyn dechrau'r gaeaf.	

9.0	**COFEB Y CLOC**	
9.1	Dim I'w adrodd	
10.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
10.1	C16/0127/20/CC - Torri coed sy'n destun gorchymyn gwarchod gan gynnwys 2 sycamorwydden a 4 eucalyptus - Hotel Portdinorwic, Ffordd Siabod Y Felinheli LL56 4XA - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
10.2	C15/1268/20/LL - 15 Glan y Môr Y FelinheliLL56 4RQ - apêl - **GWYBODAETH YN UNIG**	
11.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**	
11.1	Gwybodaeth am Fynwent y Plwyf - Miss Ashley	
11.2	Cafwyd gwybodaeth bod y bin ar bag pridd i'w cael eu hail leoli. Angen pris ar gyfer gosod llawr called i'r biniau a codi ffens I guddio'r bag pridd o'r golwg.	
11.3	Cafwyd e-bost oddi wrth R. Brinley Williams mewn perthynas â chael cefnogaeth ar gyfer fynwent y plwyf.	
12.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
12.1	Mae angen fwy o lechi ar gyfer safle Moriah. Mae Cynghorwyr Peter Simpson a Daniel Williams angen gwneud arbrawf gyda'r prosiect. Mae angen hefyd edrych ar amcan bris keyhoe.	
13.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
13.1	Mae giât ar lwybr Cerrig yr Afon yn derbyn sylw'r Cyngor Sir.	
13.2	Mae rhai meinciau angen sylw, cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd ydynt.	
14.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
14.1	Dim i'w adrodd	**CLERC**
15.0	**Materion eraill**	
15.1	Mae'r Cyngor wedi derbyn cynnig o berchnogaeth yr enw domain Felinheli. Com - penderfynwyd derbyn a bydd ychydig o gost i'w gynnal.	
15.2	Diolchwyd i George am ei waith archwilio y fainc ar y traeth.	
Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.30.		
Llofnod:	Dyddiad:	

Atodiad 1

Adroddiad Cynghorydd Sian Gwenllian – Mawrth 2016

STEPIAU CEI - Rwy'n hynod o falch o weld gwaith adeiladu yn digwydd yn ardal Stepiau Cei – rwyf wedi bod yn pwyso ers amser maith am gael ail-agor y llwybr cyhoeddus sy'n gyswllt pwysig rhwng dwy rhan o'r pentref. Dechreuodd y gwaith o godi bwtres newydd ar 29ain Chwefror. Y gobaith yw cwblhau y gwaith o fewn 4 wythnos. Cemlyn Williams (Llanddeiniolen) yw'r contractwr sydd yn adeiladu'r bwtres, ac Osian Gruffydd yw'r peiriannydd sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith a phrif gyswllt y Cyngor.

TORIADAU CYNGOR GWYNEDD – Ar Fawrth y 3ydd cytunodd y Cyngor llawn i becyn o doriadau pellgyrhaeddol gwerth £4.94 Miliwn. Heb wneud y toriadau yma, ni fyddai wedi bod yn bosib gosod cyllideb. Cytunwyd i godi'r dreth 3.9%. Mae manylion yr holl doriadau yn y linc TORIADAU CYNGOR ar wefan www.felinheli.org Canlyniad uniongyrchol polisïau ariannol San Steffan yw'r toriadau.

ARIAN PARC YNNI HAUL – o'r diwedd trosglwyddwyd £5000 gan gwmni Lighthouse sy'n gyfrifol am y Parc Ynni Haul ger Parcia i gyfrif y Cyngor Cymuned. Hwn oedd y 'budd cymunedol' yr oeddwn wedi ei sicrhau ar ran Y Felinheli a Chaernarfon. Rwyf yn argymell fod y Cyngor Cymuned yn clustnodi'r arian ar gyfer gwella'r pentref.

SAFLE FERODO - Mae swyddogion o'r Cyngor Sir wedi ymweld â'r safle yn ddiweddar yn dilyn fy nghwynion am faterion amlygwyd yn y wasg. Yn dilyn hyn, mae swyddogion wedi amlygu ambell i lecyn i berchnogion y safle lle mae'r ffens angen ei hatgyfnerthu. Gan fod y safle yn hen safle diwydiannol, mae gan y perchennog gyfrifoldeb i sicrhau nad oes neb yn gallu cael mynediad i dresbasu ar y safle – yn enwedig o gofio fod gwaith adferiad sylweddol angen ei wneud cyn ail ddatblygu'r safle. Mae swyddogion mewn trafodaethau gyda'r perchnogion , er mwyn ystyried y ffordd ymlaen. Byddaf yn cyfarfod swyddogion perthnasol yn fuan i gael diweddariad.

LLITHRFA o flaen GARDD FON - Mae dirywiad yng nghyflwr y jeti ers peth amser. Roedd yn cael ei ddefnyddio yn hanesyddol ar gyfer glanio a hwylio teithwyr ac fe roedd glanfa debyg ym Moel y Don. Mae swyddog o'r Cyngor wedi cytuno i ymweld a'r jeti pan fydd llanw isel ganol y mis er mwyn edrych ar gyflwr y jeti er ceisio adnabod unrhyw gamau fydd angen eu cymryd. Bydd hefyd yn archwilio'r trac sy'n arwain at y jeti sydd yn llawn pyllau dwr ar hyn o bryd er i waith gael ei wneud yno yn ddiweddar gan y Cyngor Sir.

LLWYBR YR ARFORDIR – Fe fydd angen mynd i Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd i gael caniatâd i symud ymlaen efo'r camau cyfreithiol olaf sydd eu hangen. Mae hyn er mwyn cael y darn olaf o'r jig-so ar gyfer symud mlaen efo'r llwybr yn ardal y Marina. Mae pawb ond un o'r tirfeddianwyr wedi cytuno erbyn hyn. Y gobaith yw gweld y Llwybr yn cael ei greu yr haf yma.
NOSON YN Y FIC - Mae Cangen Plaid Cymru yn trefnu noson i ddymuno'n dda i mi gyda fy ymgyrch ar gyfer cael fy ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar Mai 5 – croeso cynnes i BAWB ond rhaid i chi archebu tocyn ymlaen llaw os gwelwch yn dda. Yn y Fic am 7.30. Ticedi gan Nerys John.